Department of Energy & Climate Change

# Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy’n Ymwneud ag Ymbelydredd ïoneiddio 2004

# Ymgynghori ar Gais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear I Gyfiawnhau’r Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK-ABWR)

## Cyfrol 1– Y Ddogfen Ymgynghori

© Hawlfraint y Goron 2014

URN 14D/003

Y Goron sydd piau hawlfraint y trefniant argraffyddol a'r dyluniad.

Gallwch ail-ddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (ac eithrio’r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ail-ddefnyddio’n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i’r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad.

Am fwy o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â’r:

Ymgynghoriad ar Gyfiawnhad Rheoliadol

E-bost: abwrjustification@decc.gsi.gov.uk

# Cynnwys

Crynodeb Gweithredol……………………………………………………………..………………4
Pennod 1 - Rhagarweiniad……………………………………………………………………..5
Pwrpas yr ymgynghoriad……………………………………………………………………...5
Cefndir deddfwriaethol a rheoleiddiol………………………………………………………5
Niwed i iechyd……………………………………………………………………………………6
Cyfrifoldeb y Llywodraeth..………………………………………………………………...7
Cyfiawnhad rheoleiddiol niwclear newydd…………………………………………………8
Pennod 2 – Dosbarth neu Fath o Arfer………………………………………………………...9
Pennod 3 – Y cais…………..…………………………………………………………………...11
Pennod 4 – Crynodeb o'r cwestiynau…………………………………………………………...12
Pennod 5 – Sut i ymateb…..……………………………………………………………………...13
Cyfrinachedd a diogelu data……..………………………………………………………….13
Cyflawni'r ymgynghoriad………………………………………………………………………13
Pennod 6 – Beth sy'n digwydd nesaf........................................................................................15
Ymgysylltu gyda'r cyhoedd……………………………………………………………………..15
Atodiad A – Amserlen ddangosol……………………………………………………………….16

# Crynodeb Gweithredol

Ymgynghoriad cyhoeddus yw hwn ar gais gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar yr Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK-ABWR) y mae Hitachi a Horizon yn bwriadu ei adeiladu a'i redeg yn Yr Wylfa ar Ynys Môn ac Oldbury yn Sir Gaerloyw.

Mae'r cais yn un am ddosbarth neu fath o arfer a ddiffinnir fel:

"*Cynhyrchu trydan o ynni niwclear yn defnyddio tanwydd ocsid wedi'i gyfoethogi'n isel mewn cynnwys ymholltog mewn adweithydd thermol wedi'i oeri a'i gymedroli gan ddŵr ysgafn a elwir yn UK-ABWR wedi'i ddylunio gan Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd*".

Proses seiliedig ar ddeddfwriaeth yr UE yw cyfiawnhad rheoleiddiol lle rhaid i'r Llywodraeth, cyn y gellir cyflwyno unrhyw ddosbarth neu fath o arfer yn cynnwys ymbelydredd ïoneiddio i'r DU, yn gyntaf ei asesu i benderfynu a yw'r manteision economaidd, cymdeithasol neu fanteision eraill sy'n gysylltiedig â'r dosbarth neu fath o arfer yn gwrthbwyso unrhyw niwed i iechyd y gallai ei achosi.

Y cais a'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn yw rhan gyntaf y broses cyfiawnhad rheoleiddiol a bydd ymgynghori pellach wedyn ar benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol drafft yr Ysgrifennydd Gwladol fel yr Awdurdod Cyfiawnhau.

# Pennod 1 - Rhagarweiniad

## Pwrpas yr ymgynghoriad

1.1 Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio ymatebion i gais a gyflwynwyd gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA), sef y corff sy'n cynrychioli'r diwydiant niwclear yn y DU, am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar yr Adweithydd Dŵr Berwedig Uwch y DU (UK-ABWR). Mae Cyfrol 2 yr ymgynghoriad hwn yn cynnwys testun y cais a dylid ei ddarllen ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn egluro sut mae'r broses cyfiawnhad rheoleiddiol yn berthnasol i ddosbarthiadau neu fathau o arfer ac yn ceisio barn pobl ynghylch barn ragarweiniol y Llywodraeth am y dosbarth neu'r math arfaethedig o arfer yn yr achos hwn.

1.2 Mae'r cais yn cynnwys tystiolaeth sy'n ceisio dangos bod y manteision economaidd, cymdeithasol neu fanteision eraill sy'n gysylltiedig â'r dosbarth neu fath o arfer a gynigir yn y cais yn gwrthbwyso unrhyw niwed i iechyd y gallai ei achosi. Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd yw penderfynu a yw dosbarth neu fath arfaethedig o arfer yn cymhwyso fel dosbarth neu fath newydd o arfer neu un sy'n bodoli'n barod. Os newydd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fel yr Awdurdod Cyfiawnhau yna benderfynu a oes Cyfiawnhad drosto.

1.3 Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhan o'r broses cyfiawnhad rheoleiddiol. Bydd yr ymatebion a ddaw i law'n helpu i oleuo penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a yw'r cais yn ymwneud â dosbarth neu fath newydd o arfer. Bydd yr ymatebion hefyd yn goleuo ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol o'r cais fel yr Awdurdod Cyfiawnhau. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried yr ymatebion iddo a chais y NIA. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yna'n gwneud penderfyniad drafft ar y cais fydd yna'n cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori arno nes ymlaen eleni. Ar ôl yr ymgynghori hwnnw, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn disgwyl gwneud penderfyniad terfynol ar y cais. Rhoddir amserlen ddangosol yn Atodiad A.

1.4 Mae'r Bennod yma yn y ddogfen ymgynghori'n egluro beth yw cyfiawnhad rheoleiddiol. Mae'n esbonio mai proses lefel uchel ydyw a bod prosesau trwyddedu a chaniatâd i ddilyn yn edrych ar faterion safle-benodol. Mae Pennod 2 yn trafod y materion ynghylch y diffiniad o ddosbarth neu fath o arfer. Mae Pennod 3 yn trafod cais y NIA. Mae Pennod 4 yn cyflwyno'r cwestiynau yng nghyswllt cais y NIA a barn ragarweiniol y Llywodraeth y dylai pobl ei hystyried wrth ymateb i'r ymgynghoriad. Mae Pennod 5 ac Atodiad A yn egluro camau eraill y broses ymgynghori. Mae Cyfrol 2 yr ymgynghoriad hwn yn gopi o gais y NIA. Dylid ei darllen ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon.

## Cefndir deddfwriaethol a rheoleiddiol

1.5 Mae cyfiawnhad rheoleiddiol yn seiliedig ar yr egwyddor a dderbynnir yn rhyngwladol o ddiogelwch radiolegol: sef na ddylid mabwysiadu unrhyw arfer lle daw pobl i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio oni bai ei fod yn cynnig digon o fanteision i'r unigolion hynny, neu i gymdeithas yn gyffredinol, i wrthbwyso unrhyw niwed i iechyd y gallai ei achosi.

Mae’r egwyddor yma’n deillio o argymhellion y Comisiwn Rhyngwladol ar Ddiogelwch Radiolegol (ICRP), [1] yn enwedig, (ICRP) 60.

1.6 O dan Gyfarwyddeb 96/29/Euratom y Cyngor Ewropeaidd ar 13 Mai 1996 (“y Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol”) [2] mae cyfiawnhad rheoleiddiol yn un o ofynion cyfreithiol yr UE ac yn gofyn bod pob dosbarth neu fath newydd o arfer lle byddai pobl yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio’n cael eu cyfiawnhau cyn eu mabwysiadu gyntaf neu eu cymeradwyo ar sail eu manteision economaidd, cymdeithasol neu fanteision eraill yng nghyswllt y niwed i iechyd y gallent ei achosi.

1.7 Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol wedi’i gweithredu yng nghyfraith y DU yng nghyswllt cyfiawnhad rheoleiddiol gan Reoliadau Cyfiawnhau Arferion sy’n Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio [3] (“y Rheoliadau)”. Mae’r Rheoliadau’n rhagnodi’r broses ar gyfer cyfiawnhau dosbarth neu fath newydd o arfer.

1.8 Mae’r Adran dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) wedi cyhoeddi Canllawiau ar gymhwyso a gweinyddu'r Rheoliadau hyn [4]. Cyfrifoldeb yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yw’r Rheoliadau ers creu'r Adran honno ym mis Hydref 2008.

1.9 Cyfiawnhad rheoleiddiol yw’r cyntaf o nifer o brofion rheoleiddiol sy’n rhaid eu bodloni cyn y gellir adeiladu math newydd o orsaf pŵer niwclear yn y DU. Ynddo’i hun nid yw’n golygu y rhoddir caniatâd i godi gorsaf o’r fath, ond mae’n darparu asesiad lefel uchel o’r manteision a’r niwed cysylltiedig i iechyd.

1.10 Mae egwyddorion ICRP eraill (optimeiddio a chyfyngu) sy’n berthnasol i gymeradwyo gorsafoedd pŵer niwclear. Cymhwysir y rhain ar ôl y broses cyfiawnhad rheoleiddiol, drwy brosesau rheoleiddiol statudol pellach: caniatadau cynllunio, trwyddedu ac awdurdodi, sy’n edrych ar faterion safle-benodol. Mae’r prosesau pellach hyn yn sicrhau bod nifer y bobl sy’n dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio, pa mor debygol ydynt o ddod i gysylltiad ynghyd â maint unrhyw ddos unigol, yn cael eu cadw cyn lleied ag y mae’n rhesymol bosibl (wedi ystyried ffactorau economaidd a chymdeithasol) ac o dan y trothwyon dos statudol.

## Niwed i iechyd

1.11 Fel y nodwn uchod, cyn gallu cyflwyno unrhyw ddosbarth neu fath newydd o arfer yn cynnwys ymbelydredd ïoneiddio i'r DU, yn gyntaf rhaid i’r Llywodraeth ei asesu i benderfynu a yw’r manteision economaidd, cymdeithasol neu fanteision eraill sy’n

---

[1] http://www.icrp.org

[2] http://ec.europa.eu/energy/nuclear/radioprotection/doc/legislation/9629_en.pdf

Daeth trafodaethau i negodi Cyfarwyddeb ddiwygiedig ar gyfer Safonau Diogelwch Sylfaenol i ben yn ddiweddar, er na fydd y diwygiadau’n newid pwrpas sylfaenol y Gyfarwyddeb.

http://www.hse.gov.uk/aboutus/europe/euronews/dossiers/radiationprotect.htm

[3] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2004/1769/contents/made

[4] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http:/decc.gov.uk/assets/decc/what%20we%20do/uk%20energy%20supply/energy%20mix/nuclear/whitepaper08/actions/regjust/1_20090817172537_e_@@_justificationguidance.pdf

gysylltiedig â'r dosbarth neu fath o arfer yn gwrthbwyso unrhyw niwed i iechyd y gallai ei achosi.

1.12 Mae'r Gyfarwyddeb Safonau Diogelwch Sylfaenol yn diffinio "niwed i iechyd" fel "amcan o'r risg o leihad o ran hyd ac ansawdd bywyd a fyddai'n digwydd mewn poblogaeth ar ôl dod i gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Mae hyn yn cynnwys colled o ganlyniad i effeithiau somatig, canser ac anhwylder genetig difrifol". Un o nodweddion allweddol y cyfiawnhad rheoleiddiol yw bod angen asesiad o'r niwed i iechyd y gallai dosbarth neu fath o arfer ei achosi.

1.13 Mae angen i ymgeiswyr sy'n ceisio cyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd ddangos hyd at fodlonrwydd yr Awdurdod Cyfiawnhau fod unrhyw niwed i iechyd o ganlyniad i ymbelydredd ïoneiddio wedi'i wrthbwyso gan y manteision sy'n gysylltiedig â'r dosbarth neu'r math arfaethedig o arfer.

## Cyfrifoldeb y Llywodraeth

1.14 Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yw'r Adran sy'n gyfrifol am gydgysylltu'r broses cyfiawnhad rheoleiddiol ar draws Llywodraeth a'r adran sy'n arwain ar bolisi ar gyfer y Rheoliadau.

1.15 O dan y Rheoliadau, yr Awdurdod Cyfiawnhau yn y DU yw naill ai'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n gyfrifol am y pwnc dan sylw, neu un o'r tair Gweinyddiaeth Ddatganoledig (Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon) i'r graddau bod ganddynt gymhwysedd yn ymwneud â phwnc sy'n gysylltiedig â chais cyfiawnhad rheoleiddiol penodol.

1.16 Llywodraethir y cysylltiadau gweithio rhwng yr Awdurdodau Cyfiawnhau gan y Concordat ar Weithredu Rheoliadau Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud ag Ymbelydredd Ïoneiddio 2004[5] (y Concordat) mewn ffordd sy'n parchu'r setliadau datganoli. Mae'r Concordat yn darparu ar gyfer sefydlu Grŵp Cyswllt Cyfiawnhad (y JLG) sy'n cynnwys y DECC a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

1.17 Cyn gwneud penderfyniad ynghylch cyfiawnhad rheoleiddiol, rhaid i'r Awdurdod Cyfiawnhau ymgynghori â'r Gweinyddiaethau Datganoledig ac ymgyngoreion statudol: yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Adran yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon.

1.18 Sefydlwyd y Pwyllgor Cydgysylltu Cyfiawnhad (y JCC) i helpu i gydgysylltu safbwyntiau'r JLG, yr ymgyngoreion statudol a barn cyrff eraill y Llywodraeth. Mae cyfarfodydd y JCC yn cael eu cadeirio gan swyddogion y DECC, gyda'r aelodaeth yn cynnwys swyddogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yr ymgyngoreion statudol, yr Adran Iechyd, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

1.19 Testun y cais hwn yw ynni niwclear, sy'n fater na chafodd ei ddatganoli i unrhyw un o'r Gweinyddiaethau Datganoledig o dan y setliadau datganoli. Yr Ysgrifennydd Gwladol felly yw'r unig Awdurdod Cyfiawnhau yn yr achos hwn ac mae ei benderfyniad yn berthnasol i'r DU gyfan. Y trefniadau ymgynghori uchod fydd yn berthnasol gyda'r cais hwn.

[5] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/248909/concordat-justification.pdf

## Cyfiawnhad rheoleiddiol niwclear newydd

1.20 Ym mis Mai 2007, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad technegol ar broses arfaethedig o gyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd [6] fel rhan o ymgynghori â'r cyhoedd ar rôl pŵer niwclear. Cyfrannodd yr ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw at ddatblygu'r broses cyfiawnhad rheoleiddiol hon a chanllawiau i ymgeiswyr.

1.21 Yn Ionawr 2008, cyhoeddodd y Llywodraeth Bapur Gwyn ar Bŵer Niwclear [7]yn cadarnhau'r broses y byddai'n ei dilyn ar gyfer cyfiawnhad rheoleiddiol. Ym mis Mawrth 2008, dywedodd y Llywodraeth fod angen cais cyfiawnhad rheoleiddiol ar bob gorsaf bŵer niwclear newydd, gyda chanllawiau i ymgeiswyr .[8] Ym mis Mehefin 2008, derbyniodd y Llywodraeth gais gan y NIA am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar: "cynhyrchu trydan o ynni niwclear yn defnyddio tanwydd ocsid wedi'i gyfoethogi'n isel mewn cynnwys ymholltog mewn adweithydd thermol wedi'i oeri a'i gymedroli gan ddŵr ysgafn yn defnyddio dyluniadau esblygol newydd".

1.22 Cychwynnwyd ar y broses o ymgynghori gyda'r cyhoedd ar y cais yn Rhagfyr 2008[9] gan redeg tan fis Mawrth 2009. Yn yr ymgynghoriad hwn, cyflwynodd y Llywodraeth ei barn ragarweiniol y dylai'r Awdurdod Cyfiawnhau wneud ei benderfyniadau drwy gyfeirio at bedwar dosbarth neu fath o arfer, ar sail pedwar dyluniad unigol ar gyfer adweithydd: yr ACR1000, yr AP1000, yr EPR a'r ESBWR.

1.23 Yna ym mis Tachwedd 2008 cychwynnwyd ar broses bellach o ymgynghori cyhoeddus ar benderfyniadau arfaethedig gan yr Awdurdod Cyfiawnhau y dylid cyfiawnhau dau o'r arferion hyn, sef yr AP1000 a'r EPR, [10] gan redeg tan fis Chwefror 2010. Cyhoeddodd yr Awdurdod Cyfiawnhau ei benderfyniadau terfynol y dylid cyfiawnhau'r AP1000 a'r EPR ym mis Hydref 2010[11] ac ar ôl eu hystyried gan y ddau Dŷ Seneddol, daeth y penderfyniadau hyn i rym drwy basio'r rheoliadau ym mis Tachwedd 2010 [12].

1.24 Hwn yw'r cais cyntaf am gyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer dyluniad newydd yng nghyswllt adweithydd niwclear ers y cais yn 2008.

---

[6] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/+/http:/www.berr.gov.uk/files/file39199.pdf

[7]http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100512172052/http://www.decc.gov.uk/media/viewfile.ashx?filepath=what we do/uk energy supply/energy mix/nuclear/whitepaper08/file43006.pdf&filetype=4

[8]http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://decc.gov.uk/assets/decc/what%20we%20do/uk%20energy%20supply/energy%20mix/nuclear/whitepaper08/actions/regjust/file45384.pdf

[9]http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuclear/nuclear.aspx

[10]http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/reg_just_cons/reg_just_cons.aspx

[11] https://www.gov.uk/government/publications/regulatory-justification-decisions-on-nuclear-reactors

[12] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/2845/contents/made

# Pennod 2 – Dosbarth neu Fath o Arfer

2.1 Mae'r broses cyfiawnhad rheoleiddiol yn berthnasol i "ddosbarthiadau neu fathau o arfer". Ni ddiffinnir "dosbarth neu fath o arfer" yn y Gyfarwyddeb nac yn y Rheoliadau Cyfiawnhad. Mae'r Gyfarwyddeb yn diffinio "arfer" fel "gweithgaredd dynol lle mae unigolion yn fwy tebygol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd o ffynhonnell artiffisial neu o ffynhonnell ymbelydredd naturiol lle gwneir defnydd o'i nodweddion ymbelydrol, ymholltog neu ffrwythlon".

2.2 Darperir yn y Rheoliadau y gall person wneud cais i'r Awdurdod Cyfiawnhau yn gofyn am benderfyniad ynghylch a yw dosbarth neu fath penodol o arfer yn newydd i bwrpas y Rheoliadau ac, os ydyw, a oes cyfiawnhad drosto. Arfer yw "arfer newydd" i bwrpas rheoliad 4 yn y Rheoliadau os na chafodd y dosbarth neu'r math hwnnw o arfer ei gyflawni yn y Deyrnas Unedig cyn 13 Mai 2000 ac os na chafwyd bod cyfiawnhad i'r dosbarth neu'r math hwnnw o arfer o'r blaen. Os yw'r dosbarth neu'r math o arfer yn newydd yna rhaid ei gyfiawnhau cyn ei gyflwyno. Os yw'n bodoli'n barod, yna nid oes angen penderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol. Cedwir cofrestr o "arferion sy'n bodoli'n barod" sydd ar gael ar wefan y DECC. [13]

2.3 Wrth ystyried cais am gyfiawnhad rheoleiddiol, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol:

- benderfynu sut ddosbarth neu fath o arfer a ddisgrifir yn y cais; a
- penderfynu a ddylid ei ystyried fel dosbarth neu fath newydd o arfer neu un sy'n bodoli'n barod, i bwrpas y Rheoliadau.

2.4 Fel yr Awdurdod Cyfiawnhau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol, os yw'n ddosbarth neu'n fath newydd o arfer, yna benderfynu a oes cyfiawnhad neu beidio i'r dosbarth neu'r math arfaethedig o arfer o dan y Rheoliadau.

2.5 Mae cais y NIA yn un am ddosbarth neu fath o arfer yng nghyswllt un dyluniad adweithydd, sef yr UK-ABWR. Mae hyn yn gyson â phenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn cais blaenorol y NIA, a'r ymgynghoriad cyhoeddus, i drin pob dyluniad adweithydd arfaethedig fel dosbarth neu fath newydd ac ar wahân o arfer[14] .

2.6 Barn ragarweiniol yr Ysgrifennydd Gwladol, felly, yw bod yr UK-ABWR:

- yn un sydd modd ei asesu fel dosbarth neu fath o arfer;

---

[13] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/47939/1_20100318123942_e____justificationregister.pdf

[14] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/nuclear/nuclear.aspx

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20121217150421/http://www.decc.gov.uk/en/content/cms/consultations/reg_just_cons/reg_just_cons.aspx

- yn ddosbarth neu'n fath newydd o arfer ac, felly, bod angen i’r Ysgrifennydd Gwladol fel Awdurdod Cyfiawnhau wneud penderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol arno.

2.7 Barn ragarweiniol yr Ysgrifennydd Gwladol am y mater hwn yw testun Cwestiwn 1 yn y ddogfen ymgynghori hon - gweler Pennod 4.

# Pennod 3 – Y cais

3.1 Ym mis Rhagfyr 2013, derbyniodd y Llywodraeth gais gan y NIA am benderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar gyfer y dosbarth neu'r math canlynol o arfer: "*Cynhyrchu trydan o ynni niwclear yn defnyddio tanwydd ocsid wedi'i gyfoethogi'n isel mewn cynnwys ymholltog mewn adweithydd thermol wedi'i oeri a'i gymedroli gan ddŵr ysgafn a elwir yn UK-ABWR wedi'i ddylunio gan Hitachi-GE Nuclear Energy Ltd*". Mae'r cais yn gofyn am benderfyniad ynghylch a yw'r dosbarth neu fath arfaethedig o arfer yn un newydd neu'n bodoli'n barod ac, os yw'n newydd, a oes cyfiawnhad drosto.

3.2 Nodir testun cais y NIA yng Nghyfrol 2 yr ymgynghoriad hwn, a dylid ei ddarllen ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon.

3.3 Mae'r cais wedi cael ei ystyried gan y JCC, a gytunodd y dylid cyhoeddi'r cais ar gyfer ymgynghori. Mae'r cytundeb hwn heb ragfarn i unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad neu gyngor arall y gallai aelodau o'r JCC fod eisiau ei roi yn y dyfodol.

# Pennod 4 – Crynodeb o’r cwestiynau

4.1 Yr ymatebion mwyaf defnyddiol fydd rhai sy’n ymateb yn uniongyrchol i’r cwestiynau a ofynnir, er ein bod hefyd yn croesawu sylwadau pellach a thystiolaeth.

| Cwestiynau’r Ymgynghoriad | |
|---|---|
| **1.** | **A gytunwch â barn ragarweiniol y Llywodraeth bod y dosbarth neu’r math o arfer a nodir yn y cais a gyflwynwyd gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA):**<br><br>**(a) yn cymhwyso fel dosbarth neu fath newydd o arfer; a**<br><br>**(b) yn ddosbarth neu’n fath addas o arfer ar gyfer penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol?**<br>**Os na, pam ddim?** |
| **2.** | **A yw’r cais yn cynnwys digon o wybodaeth fel bo’r Awdurdod Cyfiawnhau’n gallu asesu'r dosbarth neu'r math o arfer a nodir yn y cais? Os na, pa dystiolaeth bellach sydd ei hangen?** |
| **3.** | **A oes gennych unrhyw sylwadau ar y dadleuon neu’r dystiolaeth yng nghais y NIA? A oes dadleuon neu dystiolaeth ychwanegol y dylai'r Awdurdod Cyfiawnhau eu hystyried?** |
| **4.** | **A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar farn ragarweiniol yr Ysgrifennydd Gwladol am y dosbarth neu fath o arfer, ar ddull y NIA, neu unrhyw opsiynau eraill?** |
| **5.** | **Fel rhan o’r ymgynghori pellach ar y ddogfen penderfyniad drafft, mae’r Ysgrifennydd Gwladol am gynnal digwyddiadau ymgysylltu gyda’r cyhoedd. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar y fformat ar gyfer digwyddiadau o’r fath?** |

# Pennod 5 – Sut i ymateb

5.1 Dechreuodd yr ymgynghoriad hwn ar 18 Chwefror 2014 a daw i ben ar 13 Mai 2014.

5.2 Dylech gyflwyno eich ymateb, drwy e-bost os gallwch, i:

Cais Cyfiawnhad Rheoleiddiol UK-ABWR

Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

Ystafell 108

55 Whitehall

Llundain

SW1A 2EY

E-bost: abwrjustification@decc.gsi.gov.uk

5.3 Wrth ymateb, cofiwch nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad.  Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, cofiwch nodi'n glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli a, lle bo hynny'n berthnasol, sut aethoch ati i gasglu barn ei aelodau.

5.4 Wrth ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, bydd y Llywodraeth yn rhoi mwy o bwysau i ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth yn hytrach na rhai sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

5.5 Gallwch wneud copïau o'r ddogfen hon heb ofyn am ganiatâd. Mae fersiwn electronig ar gael yn https://www.gov.uk/government/consultations/nuclear-industry-association-application-to-justify-the-advanced-boiling-water-reactor

## Cyfrinachedd a diogelu data

5.6 Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu'n unol â deddfwriaeth mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

5.7 Os ydych am i'r wybodaeth a gyflwynwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch nodi hynny'n glir yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb i'r ymgynghoriad. Byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam eich bod yn ystyried bod y wybodaeth a roesoch i ni'n gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd ichi y gallwn gadw'r cyfrinachedd hwnnw bob tro. Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried i fod yn gais am gyfrinachedd.

## Cyflawni'r ymgynghoriad

5.8 Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i gyflawni'n unol ag Egwyddorion Ymgynghori'r Llywodraeth, sydd ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/60937/Consultation-Principles.pdf

5.9 Os oes gennych unrhyw gwynion am broses yr ymgynghoriad (nid sylwadau ar y materion sy'n destun yr ymgynghoriad), dylech eu cyfeirio at:

Cydgysylltydd Ymgynghori DECC

3 Whitehall Place

Llundain SW1A 2AW

E-bost: consultation.coordinator@decc.gsi.gov.uk

# Pennod 6 – Beth sy’n digwydd nesaf?

6.1 Bydd yr ymatebion i’r ymgynghoriad hwn yn cael eu hystyried wrth benderfynu’r dosbarth neu’r math o arfer, wrth asesu a oes angen cyfiawnhad rheoleiddiol, wrth benderfynu a gafodd ddigon o wybodaeth ei darparu i gefnogi'r cais ac i baratoi dogfen penderfyniad drafft yr Awdurdod Cyfiawnhau.

6.2 Ymgynghorir ymhellach gyda’r cyhoedd ar y ddogfen penderfyniad drafft nes ymlaen eleni. Bydd y ddogfen penderfyniad drafft yn cynnwys crynodeb o’r ymatebion ac yn esbonio sut wnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried yr ymatebion wrth gyrraedd ei benderfyniad drafft. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ymatebion unigol ar ein gwefan, ond ni fyddwn yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt eraill pobl.

## Ymgysylltu gyda’r cyhoedd

6.3 Yn ogystal â’r ymgynghori ysgrifenedig pellach ar y ddogfen penderfyniad drafft, mae’r Llywodraeth am gynnal digwyddiadau ymgysylltu â’r cyhoedd yn ystod yr ail ymgynghoriad hwnnw i roi cyfle i bartïon budd ofyn cwestiynau am y ddogfen penderfyniad drafft. Hyn yw testun Cwestiwn 5 yn y ddogfen ymgynghori hon - gweler Pennod 4.

# Atodiad A:

## Amserlen ddangosol

| **Y broses cyfiawnhad rheoleiddiol** | **Amserlen ddangosol** |
|---|---|
| Y Llywodraeth yn derbyn cais gan Gymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA). | Rhagfyr 2013 |
| Y Pwyllgor Cydgysylltu Cyfiawnhad (JCC) yn ystyried y cais. | Rhagfyr 2013 - Ionawr 2014 |
| **Ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gais y NIA (y cam presennol)** | **18 Chwefror 2014** |
| Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion. | 13 Mai 2014 |
| Ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, gofyn am wybodaeth bellach fel bo angen a pharatoi dogfen penderfyniad drafft, mewn ymgynghoriad â'r JCC. Bydd y ddogfen penderfyniad drafft yn nodi asesiad yr Awdurdod Cyfiawnhau o fanteision a niwed y dosbarth neu'r math o arfer. | Mai – Gorffennaf 2014 |
| Ymgynghori'n gyhoeddus ar y ddogfen penderfyniad drafft, gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd. | Gorffennaf – Hydref 2014 |
| Penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol: os ceir bod Cyfiawnhad dros y dosbarth neu'r math o arfer, bydd yr Awdurdod Cyfiawnhau'n gwneud penderfyniad cyfiawnhad rheoleiddiol ar ffurf is-ddeddfwriaeth (Offeryn Statudol). | Ionawr – Mawrth 2015 |
| Tynnu sylw unrhyw berson sy'n debygol o gael ei effeithio gan y penderfyniad drwy ysgrifennu at yr ymgeisydd, gwneud datganiad i'r wasg a chyhoeddi hysbysiadau ym mhapurau'r London, Edinburgh a Belfast Gazettes. | Ionawr – Mawrth 2015 |

© Hawlfraint y Goron 2014
Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd
3 Whitehall Place
Llundain
SW1A 2HD
www.decc.gov.uk
URN 14D/003